

Gwobr Jane Phillips

Sioe Graddedigion

2020



Apphia Ferguson

Apphia Ferguson, artist gweledol a gof metel sy'n byw yng Nghymru: Ymchwilio i Ymdeimlad â Lle yn Ynysoedd Prydain. Pererin naratif sy'n hynod ymwybodol o bobl a lle, o sut y gall lle wneud pobl a phobl wneud lle.

Mae ei gwaith yn rhychwantu llawer o wahanol gyfryngau gan ddefnyddio dulliau traddodiadol a modern ac yn gweithio â pha ddeunyddiau bynnag a fynno'r cysyniad. Boed yn ffilm, gemwaith, gwrthrychau, testun neu ffotograffiaeth, mae'r sylwedd gan amlaf yn troi o gwmpas casgliadau gwisgadwy o le cludadwy. Dw i wedi fy nghyfareddu gan ystyron cudd a sut y gall iaith weledol eu cyfleu. Siâp, gosodiad, gwead, lliw – mae diben i bob un, does dim byd yn digwydd ar hap.

Yn yr un modd ag y cyfyngwyd ar le yn ystod y pandemig hwn felly hefyd fy ngwaith. Doedd y casgliad swynoglau ddim yn orffenedig, felly yn lle'r darnau oedd heb eu bwrw dw i wedi cynnwys broetsh y Ffenest Aur a'r gefyn mewn cawell Dan Glo. Fel llinell amser y bwriadwyd y Casgliad Swynoglau ond eto, ni chafodd ei gwblhau gyda chloch efydd weithredol orffenedig ond yn lle hynny, ar ffurf prototeip PVLA porffor ac iddo dafod haggael nad yw'n canu fel y dylai ond sy'n cynhyrchu sŵn plastig heb gresendo. Yn hytrach na hongian mewn oriel fe'i cludwyd gan bobl. Yn newid o'r llonydd i'r hylifol gan amlygu ein hangen am bobl er mwyn i'r darn gael ei wireddu ac yn pwysleisio bod 'digwyddiadau mawr yn canu fel cloch'.

BA (Anrhydedd) Cerameg a Gemwaith
Ysgol Gelf Caerfyrddin



Imogen Mills

Arucheledd

A finnu'n cael fy nghymell i nofio yn y môr ac eto'n ofni'r dyfnderoedd sy'n fy nhynnu i lawr, dw i'n cyfleu'r profiad grymus o nofio'r aruchel. Dw i wedi nofio mewn moroedd, afonydd a llynnoedd, drwy'r gaeaf; ymatebion sy'n cael eu lleisio drwy wneud marciau helaeth, ffotogramau a phrint. Eu trosi wedyn i gerfluniau sy'n edrych ar raddfa, golau, lliw a gwead drwy arwyneb defnydd gweëdig.


Gwifren lino a gweoedd cotwm, darnau llydain wedi'u trin a'u trafod a ffurfiau wedi'u hystumio. Gosod edeifion yn fain i gyfleu llond bol o ofn y dyfnderoedd.

Cymhlethdod defnydd, ei weithgynhyrchu ymhell oddi wrthym; yn dechrau fel edeifion brau; wedi'u gosod mewn trefn gan ffurfio defnydd sy'n ein gorchuddio, fel hoff gofeb, ein hamddiffynnwr. Mae ei wneud yn cymryd dycnwch a chryfder gan brofi'r corff, yr edau. Ac eto drwy'r bysedd deheuig hynny... y meddwl yn tawelu... symudiad cyson y gwenoliaid yn ôl a blaen mae'r defnydd yn cael ei adeiladu. Lluniadau dwyfol. Iaitn yn oesoedd. Mae tyndra'n bodoli yma. Arucheledd.

Dyma bedwar gwahanol gerflun wedi'u gwehyddu â llaw, pob un â'i naratif ei hun yn gysylltiedig â phrofiadau o nofio mewn dŵr oer yn y gaeaf.

Gwehyddes law ac artist cyfoes yw Imogen Mills.

BA (Anrhydedd) Tecstilau, Gwau, Gwehyddu a Chyfryngau Cymysg
Ysgol Gelf Caerfyrddin



Jess Parry

DYW E DDIM BYD OND CNAWD.


Mae'n teimlo bod llaw'r artist yn wir yr un mor dreisgar â llaw'r cigydd. Mor dringar â llaw'r wniadwraig ac mor fanwl fedrus â llaw'r llawfeddyg.

Gellir gweld y cwbl o'r uchod yn y darn cerfluniol y mae wedi'i gyflwyno sydd wedi'i lenwi â chyfryngau cymysg sy'n cyffwrdd â chrombil eich perfedd.

Gwaith Jess yw'r gormodedd o gnawd nad yw mo'i eisiau ar ei chorff. Mae'n dod yn wrthrych sy'n ecsbloetio'r ffin hudol a sinistr o fod yn gyfforddus neu'n anghyfforddus yn eich croen eich hun. Gall y darnau hyn gael eu gwisgo'n gorfforol gan yr artist. Mae'n cyrraedd y man lle mae'r croen go iawn yn cwrdd â'r croen trosiadol. Pwysau marw trwm a gwrthun tebyg i garcas.

Sylwedd hydrin iddi hi yw cnawd ac mae'n cael ei chyfareddu'n llwyr gan ei natur wrthun a threisgar sy'n tanio ei gwaith.

BA (Anrhydedd) mewn Celfyddyd Gain: Stiwdio, Safle a Chyd-destun
Coleg Celf Abertawe PCDDS



Keziah Ferguson

Artist gweledol sy'n byw yn ne Cymru yw Keziah Ferguson y mae ei gwaith yn edrych ar thema Diwylliant Cartref, gan ddogfennu'n hiraethlon fyw mewn tref ôl-ddiwydiannol ar yr arfordir. Drwy gyfuniad o drin a thrafod tecstilïau, castinau metel poeth a chreffftau traddodiadol, mae Keziah yn anelu at ddarlunio ei phrofiad o gysur a'r hyn sy'n gyfarwydd – syniadau sydd wedi newid yn ddramatig yng ngoleuni'r ychydig fisoedd diwethaf.

Mewnolwyd ei hymchwil i nabod y tir a chael ei nabod yn y tir yn ddisymwth yn ystod y pandemig diweddar. Gyda siwrneiau a chysylltiadau posibl yn cael eu gohirio, dyma amser i orffwys ac ailgalibro gartref. Drwy lens bywyd ymarferol a domestig, ail-ddarganfu Keziah ymdeimlad meddalach â chysur ac agosatrwydd mewn amgylchedd mwy diffiniedig ac uniongyrchol.



BA (Anrhydedd) Celf a Dylunio Amlddisgyblaethol
Ysgol Gelf Caerfyrddin


Mattie Amatt

Profiad corfforol yw byw yn y byd; rydyn ni'n cael ein ffurfio'n rhannol gan y gweadau, synau, ogleuon a siapiau sydd o'n cwmpas wrth i ni dyfu. Mae deddfau ecoleg yn dweud wrthon ni fod popeth yn gysylltiedig ac eto mae ein cysylltiad corfforol â'r byd yn mynd yn gynyddol anghorfforol a phoenus.

Mae Martha yn gweithio er mwyn ailddatgan ymgysylltiad cyffyrddol a synhwyrus â'r byd. Daw ysbrydoliaeth i'r ffurf o siapiau yn y tir, ystum yr afon, disgyniad ael y bryn. Adeiledir y darnau drwy dorchi clai gyda rhythm ara deg a chyson gan eu gorchuddio â slip neu eu harysgrifio â phorslen, a rhwyll o ddotiau yn ffurfio gwrthbwynt geometrig afrosgo i'r ffurf organig. Mae tanio hyd at 1200°C yn datgelu lliwiau cyfoethog y clai amrwd, palet minimalaidd o arlliwiau priddlyd wedi'u creu drwy gyfuno cyrff clai.

Drwy'r darnau mwy o faint, mae'n gobeithio creu amgylcheddau amsugol – cerfluniau sy'n llenwi'ch golwg ymylol. Maent yn gweithio i hybu perthynas hwyliog rhwng y gwylwr a'r tir, i ailgysylltu'r corff â'i rwydwaith amgylcheddol ehangach. I'n hatgoffa mai profiad corfforol yw pob rhyngweithio.

BA (Anrhydedd) Cerameg
Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd




Zoë Noakes

Seilir gwaith stiwdio Zoe Noakes ar ymchwil ddamcaniaethol ac athronyddol eang i natur drawsddisgyblaethol patrwm. Mae'r corff yma o waith yn ystyried, ystumio ac yn ail-ddychmygu patrymau a strwythurau cysylltiedig â thwf a ffurfiant.

Does yr un patrwm na strwythur ym myd natur yn aros yn llonydd; mae yna lanw a thrai iddynt ac maent yn dawnsio o'n cwmpas ac ynom yn dragwyddol. Ffurfiâu symudol wedi'u coreograffu gan rymoedd mewnol ac allanol a meysydd egni sy'n symud fel cysgodion. Mae popeth ar newid, yn symud rhwng cael ei wneud, ei ddad-wneud a'i ail-wneud, yn troelli am byth...

Lluniwyd ei chasgliad olaf fel gosodiad gwydr ymdrwythol a fyddai'n dod â phobl at ei gilydd, i'w hysbrydoli i ofyn cwestiynau a magu chwilfrydedd am hud natur a'i phatrymau. Yn ystod y clo mawr, fe'i heriwyd i gyflwyno ei gwaith yn ddigidol, gan esgor ar gyfres o arbrofion goleuo ffotograffig – cipolwg ar sut byddai'r gwydr a'r cysgodion yn cael eu profi mewn gofod.

Ei nod yw gwneud ymchwil bellach gan edrych ar bosibiliadau patrwm fel offeryn i ail-integreiddio ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r gwyddorau, celfyddydau a systemau naturiol yn ystod ei hastudiaethau ôl-raddedig ar y Rhaglen MA mewn Gwydr yng Ngholeg Celf Abertawe PCDDS.



Sioe Graddedigion

Gan ffocysu ar artistiaid, gwneuthurwyr a dylunwyr sydd wedi dangos arbenigrwydd yn eu maes arbenigol; gan amlygu'r rheini sydd yn gwthio ffiniau cysyniadau a syniadau traddodiadol, gan aflunio'r llinellau rhwng disgyblaethau a dathlu holl ffurfiau celf a chrefft.

Gwobr Jane Phillips

Er cof am Jane Phillips (1957 - 2011), Cyfarwyddwr cyntaf Oriel Mission. Cafodd y wobr Jane Phillips ei greu yn 2011 er cof am Jane Phillips (1957 - 2011) cyfarwyddwr cyntaf Oriel Mission. Mae'r wobr yn gymynrodd i angerdd Jane am feithrin talent, yn cefnogi'n gyson artistiaid ifanc, ymddangosedig dros gelfyddyd Gweledol a Chymhwysol yng Nghymru a phellach.

janephillipsaward.com

Oriel Mission
Gloucester Place
Abertawe
SA1 1TY

Ar Agor 11am - 5pm, Dydd Mawrth - Dydd Sadwrn
01792 652016 • cymraeg.missiongallery.co.uk



Jane Phillips Award

